**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (24)**

**Dydd Mercher, 23 Hydref 2002**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiwn Brys**
I ofyn i Brif Weinidog Cymru pa gynlluniau wrth-gefn sy'n cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau diogelwch pobl Cymru yn ystod unrhyw gyfnod pan fydd y gwasanaeth tân ar streic.

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 3**
**Cwestiynau Cyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 4**
**Datganiad: Prif Weinidog Cymru ar Uwchgynhadledd y Ddaear yn Johannesburg**

**Eitem 5**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Roi Cefnogaeth i Blant a Rhieni yng Nghymru**

**Eitem 6**
**Cymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 22.25 a 23.10, *Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) (No 2) Regulations 2002***
***NDM1185 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10 yn cymeradwyo *Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England & Wales) (Amendment) (No 2) Regulations 2002* ar eu ffurf drafft, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2002.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft - *Ar gael  yn Saesneg yn unig.*
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg o'r ddogfen hon yn y Swyddfa Gyflwyno.*

**Eitem 7**
**Cymeradwyo'r Cynllun Cyhoeddi**
***NDM1182-*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol* yn mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2002, fel ei gynllun o dan adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Cliciwch yma i weld y Cynllun Cyhoeddi.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:*

*(1)+(2)*
*(3)*

**Gwelliant 1 -  Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn nodi â phryder na chafwyd addewid i gyhoeddi gwybodaeth ar ddatblygiad siambr newydd y Cynulliad.

**Gwelliant 2 -  Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn nodi ymhellach y diffyg darpariaeth i gyhoeddi gwybodaeth ar ddatblygu ‘Llysgenadaethau’ newydd y Cynulliad.

**Gwelliant 3 -  David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn nodi gyda gofid nad oes darpariaeth i gyhoeddi’r lwfansau a hawlir gan bob Aelod o’r Cynulliad.

**Eitem 8**
**Cynnig i Nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru -** ***Mae'r eitem hon wedi cael ei thynnu'n ôl.***
**NDM1183 -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 6.5, yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru, 2001-02, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2002.

Cliciwch yma i weld yr Adroddiad Blynyddol.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

*(1)*

**Gwelliant 1- Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn nodi gyda gofal y sylwadau a wnaethpwyd gan Ombwdsman y Gwasanaeth Iechyd ar y drefn gwyno o fewn y GIG.

**Eitem 9**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**
***NDM1184 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 6.5, yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2002.

Cliciwch yma i weld yr Adroddiad Blynyddol.

**Eitem 10**
**Dadl Fer: *NDM1181* David Davies (Mynwy): Cau Ysgolion Bychain yng Nghymru**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 29 Hydref 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**